

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Eurig Hughes (Cadeirydd), Robert G. Owen.

PRESENNOL

Cyng. Russell Sharp (Is Gadeirydd), Gerallt Jones, Caerwyn Roberts, Dylan Hughes, Mair Thomas, David J. Roberts, a'r Cyng. Annwen Hughes (Cyngor Gwynedd).

Yn absenoldeb y Cadeirydd cymerwyd y Gadair gan yr Is-Gadeirydd.

Ar ran y Cyngor cydymdeimlodd y Cadeirydd gyda'r Cyng. Mair Thomas a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei chwaer yng nghyfraith Mrs Gwyneth Meredith o Ddolgellau a diolchodd y Cyng. Mair Thomas am y cerdyn oedd y teulu wedi ei dderbyn gan y Cyngor ag yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.

COFNODION

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Hydref 16eg 2019 fel rhai cywir.

MATERION YN CODI

Cynllun Cyllideb

Adroddwyd bod £16,661.63_wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £313.32 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn.

Llinellau Melyn ger stesion Llandanwg

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cael gwybod bod 3 gwrthwynebiad i'r cynllun uchod wedi cael eu derbyn ag felly y cam nesaf fydd mynd ar mater o flaen pwyllgor cynllunio am benderfyniad. Fydd rhaid iddynt ysgrifennu adroddiad a thrafod gyda'r Gwasanaeth Cynllunio I weld pa bryd allant roi'r mater o flaen y pwyllgor. Fel yr Aelod Lleol ar Gyngor Gwynedd bydd y Clerc yn derbyn fwy o fanylion maes o law.

Cyfarfod Bwrdd Hamdden Harlech ac Ardudwy

Adroddwyd bod ddim cyfarfod o'r Bwrdd uchod wedi cael ei gynnal ers cyfarfod diwethaf y Cyngor a fydd y cyfarfod nesa yn cael ei gynnal ar yr 16eg o Ionawr 2020. Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn yr e-bost canlynol gan un o'r Cyfarwyddwyr, Mr. Dylan Hughes – yn gyntaf diolch am barhau gyda'r cymorth ariannol ag 'roeddwn yn meddwl y buaswn yn gadael chwi wybod am ddwy grant yr ydym wedi ei gael yn ddiweddar, yr ail 'rwyf yn teimlo yn rhannol oherwydd yn nawr gyda cefnogaeth y Cynghorau Tref a Chymuned yr ardal pam mae panel/cyrff y grantiau dan sylw yn cwrdd i wneud penderfyniadau a'i bod yn gweld cefnogaeth ariannol sydd ar gael gan y cymunedau yn help mawr i'r Bwrdd fod yn llwyddianus gyda'i cynnigion.


1. Grant Cist Cymunedol am £1,497.00 – bydd y grant hon yn mynd tuag at gwelliannau yn y wal ddringo trwy archebu mwy o offer a hyfforddiant er mwyn gallu cynnig gwell hyfforddiant dringo ag yn enwedig mewn perthynas a dringo arweiniol (pan mae dringwr yn mynd a rhaff i fynnu gyda hwy yn hytrach na bod y rhaff yn barod yn ei lle).
2. Grant Tir Lenwi am £49,772.00 – bydd y grant hon yn help mawr i wella yr amgylchedd o amgylch y ganolfan e.e. plannu llwyni a coed, ymrwymiad cymunedol i wella yr ardal gwyrdd o gwmpas y ganolfan, hefyd archebu raciau beics, trwsio y tarmac mewn llefydd, a gobeithio cael rhai o'r goleuadau stryd a maes parcio yn gweithio eto (gyda golau egni effeithlon) ag arian tuag at (gobeithio) adnewyddu ffenestri y pwll i gyd. Byddai hyn yn cael effaith mawr ar edrychiad gwledol y ganolfan o'r tu allan, lleihau y costau trydan a gobeithio denu mwy o ddefnyddwyr.

CEISIADAU CYNLLUNIO

Ddim wedi dod i law ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad arnynt

Ddim wedi dod i law ers y cyfarfod diwethaf.

416..........Cadeirydd

ADRODDIAD Y TRYSORYDD

Adroddodd y Trysorydd bod £8,347.74 yn y cyfrif rhedegol, a £5,512.78 yn y cyfrif cadw.

Taliadau ers y cyfarfod diwethaf

Llen Prydeinig - £17.00 - torchen pabi coch
Cyngor Gwynedd - £150.00 – archwiliad Mewnol
Swyddfa Archwilio Cymru - £262.30 – archwiliad allanol
Mrs Annwen Hughes - £380.00 – cyflog 3 mis
Dwr Cymru - £14.65 - tap y fynwent
Mr. Eifion Roberts - £420.00 – torri gwair y llwybrau cyhoeddus yn yr ardal

Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf

Mr. M. Downey - £40.00 - rhent cwt yr hers (Tachwedd)

Ceisiadau am gymorth ariannol

Partneriaeth Ardudwy – gohirio tan cyfarfod nesaf er mwyn i'r Aelodau gael gweld y wefan.

GOHEBIAETH

Cyngor Gwynedd – Adran Prifffyrdd

Wedi derbyn ateb gan yr uchod i'r materion a godwyd yng nghfarfod diwethaf y Cyngor ag yn datgan bod yr Arolygwr Prifffyrdd wedi archebu arwydd newydd 40 m.y.a a bydd hwn yn cael ei osod pan fydd llafur ar gael ar rhiw Cae Cethin, bod ein cais am adnewyddu y llinellau gwyn yn y maes parcio yn y pentref wedi cael ei gyfeirio i Gwenan Huws Tomos yn Gaernarfon, nid y gwasanaeth prifffyrdd sydd yn gyfrifol am dorri tyfiant i'r cae o ystad dai Derlwyn.

Cyngor Gwynedd – Adran Prifffyrdd

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn gofyn a fyddai y Cyngor a diddordeb ag yn fodlon cymryd cyfrifoldeb mewn egwyddor am y meusydd chwarae sydd yn yr ardal (cae chwarae ystad Haulfryn) neu yn gwybod am grwpiau eraill a fyddai yn fodlon i wneud hyn. Os oes diddordeb bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal er mwyn datblygu y ffordd orau o weithio gyda'i gilydd a trafod yr opsiynau unai i drosglwyddo neu i weithio mewn partneriaeth. Mae hyn yn gorfod cael ei wneud oherwydd y torriadau sydd yn gwynebu Cyngor Gwynedd a bydd y gost o ddarparu gwasanaethau lleol yn cael ei dorri o oddeutu £12 miliwn yn ystod 2019/20 ag efallai £16 miliwn yn 2020/21. Cytunwyd i ddatgan bod gan y Cyngor ddim diddordeb cymryd cyfrifoldeb mewn egwyddor am y maes chwarae yn y gymuned.

Ms. Rosy Berry

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bod rhywbeth o'i le hefo clo yr hysbysfwrdd ger yr eglwys. Cytunodd y Cyng. Russell Sharp gael golwg arno.

UNRHYW FATER ARALL

Eisiau gadael yr Adran Prifffyrdd wybod bod y twll gyferbyn ar toiledau cyhoeddus yn Llandanwg byth wedi cael ei drwsio.

Eisiau gadael yr Adran Prifffyrdd wybod bod dwr yn casglu ger mynedfa y maes parcio yn Llandanwg pan mae hi yn dywydd garw.

Dyddiad Cyfarfod Nesa

Penderfynwyd cynnal cyfarfod nesa y Cyngor ar nos Fercher Ionawr 8ed 2020 am 7.00 o'r gloch

ARWYDDWYD..........Cadeirydd

DYDDIAD.....8/1/20..... 417